Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# Tir Yr Ysgol

## Cyfnod Sylfaen



Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

3 IECHYD A LLESIANT DA

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Mae tir yr ysgol ysgol yn rhan bwysig o fywyd ysgol, maent yn darparu lle diogel a hygyrch i blant, sy'n treulio llai o amser yn yr awyr agored nag erioed o'r blaen, dilyn ffyrdd o fyw mwy llonydd a chysylltu llai â'r byd naturiol na chenedlaethau o'r blaen. Gall hyn gael effaith ar iechyd corfforol a llesiant cymdeithasol ac emosiynol plant.

Gall ardal awyr agored ar diroedd ysgol gynnig ystod o fuddion - awyr iach, lle i symud yn rhydd, y cyfle i chwarae a chysylltu â natur, helpu i wella cyflawniad, a gwella hunan-barch, ymddygiad a datblygu sgiliau. Gall tir yr ysgol sydd wedi cael ei ddatblygu yn ystyriol er mwyn ysgogi disgyblion ac a ddefnyddir yn y ffurf gorau posib gyfoethogi addysgu a dysgu ar draws y cwricwlwm yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned ehangach.



# Safbwynt hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw'r newid mewn patrymau tywydd ar draws y byd, y cyfrannir ato gan weithgareddau dynol megis datgoedwigo a llosgi tanwydd ffosil. Mae'r rhain yn arwain at ryddhau carbon deuocsid a nwyon tŷ gwydr eraill i atmosffer y Ddaear. Creda gwyddonwyr fod y gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gynhesu byd-eang.  Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ar fywydau plant yn fyd-eang, gan effeithio ar eu sicrwydd bwyd, mynediad at ddŵr, aer glân, addysg a gofal iechyd. Mae effeithiau patrymau tywydd newidiol yn achosi cynnydd yn lefel y môr, llifogydd, sychder a llygredd dŵr, bob un ohonynt yn peryglu iechyd a llesiant plant, ac yn y pen draw, eu dyfodol.

Mae gennym gyfrifoldeb i helpu cenedlaethau'r dyfodol i ofalu am, ac amddiffyn yr amgylchedd naturiol a deall heriau newid yn yr hinsawdd drwy addysg.

*"No one will protect what they don't care about; and no one will care about what they have never experienced,"* *David Attenborough.*


# Hapa-zome

## Cyfnod Sylfaen

Hapa-zome neu Tataki-zome yw'r gelf Japaneaidd o liwio deunydd (neu liwio â morthwyl) yn defnyddio'r pigment naturiol o ddail a blodau. Mae'n ffordd wych o archwilio tir eich ysgol neu ardal leol a defnyddio'r deunyddiau naturiol y dewch o hyd iddynt i fod yn greadigol a chreu eitemau addurnol ar gyfer eich ardal y tu allan. Mae hefyd yn ffordd bwrpasol o gyflwyno plant i'r dechneg syml o adnabod planhigion pan fyddant yn dod o hyd i ddail a blodau i'w morthwylio. Mae'n bwysig addysgu plant i fod yn barchus a dewis dail a blodau gyda gofal, gan gymryd yr hyn y maent yn mynd i'w ddefnyddio'n unig o blanhigion y maent yn gwybod eu bod yn ddiogel i'w cyffwrdd.

## Deunyddiau sydd eu hangen:

- Deunydd cotwm gwyn plaen (neu liw golau) - cynfas gwely neu liain bwrdd wedi'i ail-bwrpasu, sgwariau mwslin, calico - wedi'i dorri yn sgwariau neu betryalau
- Gordd bren((mallet), morthwyl, pin rholio neu garreg lefn fawr ar gyfer morthwylio
- Dail a blodau oddi ar dir yr ysgol os yw'n bosibl - dail llawn sudd/ffres sy'n gweithio orau
- Taflenni, llyfrau, apiau neu wefan adnabod planhigion a choed
- Llinyn neu ruban, pegiau, gwn glud neu ddull o lynu deunydd wrth linyn os ydych yn creu baner



## Cam 1

Trafodwch y gweithgaredd gyda'r plant a sefydlwch pa flodau a dail sy'n ddiogel iddynt eu casglu. Defnyddiwch adnoddau adnabod i ddod o hyd i enwau rhai o'r planhigion a choed ar dir eich ysgol. Efallai yr hoffech ddarparu deunyddiau naturiol eraill yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn ac adnoddau sydd ar gael i chi ar eich tir.




## Cam 2





Trefnwch y blodau a'r dail a ddewiswyd ar ben darn o ddeunydd ar arwyneb gwastad. Dodwch ddarn arall o ddeunydd ar ben y deunyddiau naturiol. Mae hefyd yn bosib plygu un darn o ddeunydd yn ei hanner i wasgu'r blodau a'r dail yn y canol.

## Cam 3




Morthwyliwch arwyneb y deunydd yn ofalus a chyfartal hyd nes y mae'r pigment o'r blodau a'r dail yn treiddio i mewn i'r deunydd. Gwnewch yr un fath hyd nes y cyflawnir yr effaith a ddymunir.

## Cam 4




Pliciwch y deunydd a forthwyliwyd a gwaredwch mewn bin compost neu ardal addas y tu allan i bydru. Gadewch i sychu.

## Cam 5




Torrwch yn drionglau neu sgwariau i wneud baner os oes angen. Glynwch y darnau o ddeunydd wrth ruban neu linyn. Defnyddiwch i addurno ardaloedd y tu allan tir yr ysgol neu crëwch ddarn o gelf ar y cyd i'w ddefnyddio fel cefndir arddangosfa am dir eich ysgol, lliain bwrdd ar gyfer ardal chwarae rôl neu lenni ar gyfer tŷ chwarae'r tu allan.

Os yw'r dyluniadau yn dechrau pylu dros amser neu ar ôl cael eu hamlygu i'r tywydd, mae'n hawdd ailadrodd y broses eto yn defnyddio dail neu flodau newydd.

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Meysydd Dysgu a Phrofiad** - Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae'r byd yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi

**Maes Dysgu a Phrofiad** – Celfyddydau Mynegiannol

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth artistig ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Meysydd Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Ymchwiliwch i batrymau a chymesuredd mewn natur
- Arbrofwch gyda defnyddio lliw o blanhigion eraill y deuir o hyd iddynt ar dir eich ysgol
- Archwiliwch waith artistiaid sy'n defnyddio deunyddiau naturiol neu liwiau naturiol
- Dysgwch am ffyrdd eraill o ddefnyddio lliwiau naturiol - croen nionyn, betys, bresych coch
- Meddyliwch am ffyrdd o gyflwyno mwy o blanhigion a choed ar dir yr ysgol

cadwch gymru'n daclus keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13